Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# GEM UK: Adroddiad Cymru 2011

Jonathan Levie a Mark Hart

# GEM UK: Adroddiad Cymru 2011

Jonathan Levie a Mark Hart

Prosiect rhyngwladol yw'r Monitor Entrepreneuriaeth Byd-Eang (GEM) ac fe'i cynhaliwyd mewn 54 o wledydd yn 2010. Ei nod yw cynnig gwybodaeth am y patrwm entrepreneuraidd mewn gwahanol wledydd. Mae nifer o astudiaethau wedi dangos bod entrepreneuriaeth yn bwysig o ran creu twf economaidd, cystadleurwydd a swyddi. Defnyddir canlyniadau dadansoddiad data'r GEM fel meincnodau allweddol gan awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol ledled y byd. Maint y sampl yng Nghymru oedd 3,003 o oedolion dros 16 mlwydd oed yn 2011 o ganlyniad i gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru (LlC).

## Y Prif Ganfyddiadau

- **Roedd cyfradd cyfanswm y gweithgarwch entrepreneuraidd (TEA) yng Nghymru yn 2011 yn 8.1 y cant, cynnydd sylweddol o 5.8 y cant yn 2010. Roedd hyn yn cymharu â chyfraddau TEA o 7.6 y cant yn y DU drwyddi draw a 7.7 yn rhanbarthau Lloegr.**

- **Cododd y TEA o anghenraid o 1.1 y cant i 1.6 y cant, tra bod TEA yn sgil cyfle wedi codi o 4.1 y cant i 6.4 y cant.**

- **Cododd y gyfradd TEA fenywaidd yng Nghymru i'w uchaf erioed, sef 6.1 y cant yn 2011 (y DU 5.0 y cant) ac roedd y gymhareb TEA merched i ddynion yn 60 y cant, i fyny o 45 y cant yn 2010 (DU 49 y cant, i fyny o 44 y cant).**

- **Parhaodd y gyfradd TEA ymhlith oedolion ifanc 18 i 29 oed i godi yn 2011. Mae'r gyfraedd TEA ymhlith y grŵp oed hwn bron wedi treblu yng Nghymru o 3.4 y cant yn 2002 i 9.7 y cant yn 2011 (DU: 4.2 y cant i 7.4 y cant), o'i gymharu â chynnydd ysgafnach yn y gyfradd TEA ymhlith y rhai 30 i 64 oed o 4.4 y cant i 7.7 y cant (DU 5.8 y cant i 7.7 y cant).**

- **Yn gyffredinol roedd agweddau ymysg y boblogaeth heb fod yn entrepreneuriaid yn fwy negyddol yn 2011 nag yn 2010. Dim ond 17.7 y cant o'r boblogaeth oed gwaith heb fod yn entrepreneuriaid yng Nghymru oedd yn cytuno fod cyfleoedd da i ddechrau busnes yn eu hardal leol yn y chwe mis nesaf, o'i gymharu â 27.9 y cant ar draws y DU. Dyma'r gyfradd isaf o ganfyddiad am gyfleoedd dechrau busnes yng Nghymru ers 2002, ac mae'n ddirywiad ystadegol arwyddocaol ar 2010.**

- **Cytunodd rhyw 48.9 y cant o unigolion heb fod yn entrepreneuriaid oedran gweithio yng Nghymru (DU: 41.4 y cant) fod ofn dechrau busnes arnynt rhag ofn y byddai'n methu, i fyny bob blwyddyn o isafbwynt o 28.2 y cant yn 2008 (DU: 38.3 y cant).**

- **Cododd cyfradd yr oedolion oedran gweithio heb fod yn entrepreneuriaid yng Nghymru sy'n disgwyl dechrau busnes o fewn y tair blynedd nesaf yn sylweddol o 5.2 y cant yn 2010 i 7.6 y cant yn 2011.**

- **Y gyfradd Gweithgarwch Gweithwyr Entrepreneuraidd y Sector Preifat (PEEA), neu gyfradd y gweithwyr mewn cyrff preifat gwneud elw sydd ar hyn o bryd wrthi'n arwain ar weithgareddau busnes newydd i'w cyflogwr, oedd 1.5 y cant, o'i gymharu â 2.3 y cant i'r DU.**

# Cefndir

Mae'r Monitor Entrepreneuriaeth Byd-Eang (GEM) yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol. I ddechrau, mae ffyniant economi yn dibynnu'n uchel ar sector entrepreneuriaeth fywiog. Yn ail, mae gallu entrepreneuraidd economi yn dibynnu ar unigolion o bob carfan o gymdeithas sydd â'r gallu a'r cymhelliant i ddechrau busnesau, ac mae hynny'n gofyn am agweddau cadarnhaol gan gymdeithas tuag at entrepreneuriaeth. Yn drydydd, mae entrepreneuriaeth twf uchel yn gwneud cyfraniad allweddol at gyflogaeth newydd mewn economi, ac mae cystadleurwydd cymdeithasol yn dibynnu ar fentrau entrepreneuriaeth arloesol a thraws-ffiniol.

Llywodraeth Cymru (LlC) a noddodd ran Cymru ym mhrosiect ymchwil GEM y DU. Mae ysgogi entrepreneuriaeth yn dal i fod yn her bwysig i'r wlad ac mae LlC wedi cymryd yr awenau i sicrhau ei fod yn rhan annatod o'i gweithgareddau craidd. Dyma'r nawfed flwyddyn i LlC gymryd rhan yn y GEM. O'r 246,000 o ymatebwyr i arolygon GEM UK dros y cyfnod 2002-2011, roedd dros 41,000 o Gymru. Mae gan Gymru bellach y gronfa ddata fwyaf ar agweddau, gweithgarwch a dyheadau entrepreneuraidd unrhyw ran o'r DU dros y cyfnod hwn. Mae hwn yn ddadansoddiad tueddiadau hynod o ddefnyddiol ar gyfer is-boblogaethau yng Nghymru, megis pobl ifanc, mewn perthynas â'r gwledydd cartref eraill.

Defnyddir dadansoddiad data'r GEM fel meincnodau allweddol gan awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol ledled y byd. Maent hefyd yn golygu y gellir cymharu â rhanbarthau eraill y DU a gwledydd eraill sy'n cymryd rhan yn y GEM. Yn gyffredinol, mae gallu unigryw'r GEM i gynnig gwybodaeth am y patrwm entrepreneuraidd mewn gwahanol wledydd yn golygu fod ei ddata yn adnodd angenrheidiol i unrhyw un sydd am astudio ac olrhain ymddygiad entrepreneuraidd.

Mae'n bwysig bod gennym well dealltwriaeth o'r hyn sy'n achosi entrepreneuriaeth cyfnod cynnar, oherwydd mae tystiolaeth yn awgrymu cysylltiad rhwng cyfraddau entrepreneuriaeth

uwch a llewyrch economaidd drwyddi draw, yn arbennig mewn economïau sy'n cael eu gyrru gan arloesedd, fel un Cymru.

## Sut mae'r GEM yn Mesur Gweithgarwch Entrepreneuraidd

Mae'r GEM yn creu mynegai o weithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar (a adnabyddir fel TEA) drwy ddefnyddio'r dull canlynol:

- Cynhelir arolwg ffôn o sampl ar hap o'r boblogaeth oedolion rhwng mis Mai a mis Medi.
- Mynegai TEA yw cyfanswm y rheiny a atebodd a ddosberthir yn egin entrepreneuriaid[1] ac entrepreneuriaid newydd pendant[2].

Nid yw'r mynegai TEA yn mesur pob gweithgarwch entrepreneuraidd ac nid yw'n seiliedig ar arolwg o endidau busnes. Mae'n mesur nodweddion unigolion entrepreneuraidd a'r mathau o endidau a sefydlant. Felly mae'n fesur unigryw y gellir gwneud cymariaethau rhyngwladol ohono, o dueddiad diwylliannol gwlad, neu ranbarth, i fod yn entrepreneuraidd.

Un ffordd o wahaniaethu rhwng gwahanol fathau o weithgarwch entrepreneuraidd yw holi a yw'r gweithgarwch yn seiliedig ar anghenraid (h.y. nid oes dewis gwell o ran gwaith) neu gyfle (lle mae entrepreneuriaid yn manteisio ar y potensial o greu marchnad newydd). Yn 2011, mesurwyd gweithgaredd entrpreneuraidd ymhlith gweithwyr cyflogedig, gan ychwanegu at ein gwybodaeth am yr amrywiaeth o gyd-destunau lle y gellir mynegi gweithgarwch entrepreneuraidd.

Yn ogystal â gweithgarwch, mae arolwg GEM yn holi'r ymatebwyr i gyd am eu hagweddau at weithgarwch entrepreneuraidd, ac yn holi entrepreneuriaid am eu dyheadau.

Caiff y fethodoleg, y meintiau sampl a'r systemau pwysoli a ddefnyddiwyd i arolwg poblogaeth oedolion GEM 2011 eu hegluro'n fanylach yn adroddiad GEM y DU 2011 (www.gemconsortium.org). Cyflwynwyd newid pwysig yng nghynllun y sampl yn 2010 pan

[1] Y cyfnod cynlluno gweithredol pan fo'r entrepreneur wedi gwneud rhywbeth yn ystod y 12 mis diwethaf i helpu i ddechrau busnes newydd, busnes newydd y bydd ef/hi o leiaf yn rhannol berchen arno, ac sydd heb dalu cyflog neu incwm arall i'r perchnogion yn y 3 mis diwethaf.

[2] Diffinnir yr ail gyfnod fel un rhwng 4 i 42 mis ar ôl i'r fenter newydd ddechrau dod ag incwm i'r perchnogion. Cyfeirir at entrepreneuriaid sydd o leiaf yn rhannol berchen ar ac yn rheoli busnes newydd sydd wedi bod yn talu rhyw fath o incwm i'r perchnogion am o leiaf 4 ond ddim mwy na 42 mis fel entreprenuriaid cadarn newydd.


ddewiswyd 10% o ymatebwyr ym mhob un o Swyddfeydd Rhanbarthol y Llywodraeth ar hap o aelwydydd oedd â ffonau symudol ond ddim ffonau llinell dir sefydlog. Yn 2011, codwyd y ffigwr hwn i 13 y cant, yn unol â'r amcangyfrifon diweddar am gyfradd yr aelwydydd ffôn symudol yn unig yn y DU.

Mae'r adroddiad canlynol yn grynodeb o'r prif ganlyniadau, a'r themâu allweddol sy'n deillio o arolwg GEM yn 2011 a dadansoddiad o'r deng mlynedd o ddata GEM (2002-11).

## Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar (Mynegai TEA)


Roedd cyfradd entrepreneuriaeth cyfnod cynnar yng Nghymru yn 2011 yn 8.1 y cant o'i gymharu â 7.6 y cant yn y DU drwyddi draw a 7.7 y cant yn rhanbarthau Lloegr. Nid oedd y cyfraddau TEA i Gymru, y gwledydd cartref eraill a'r DU yn 2011 yn gwahaniaethu gymaint â hynny yn ystadegol (Ffigwr 1).

Yn gyffredinol, mae cyfradd TEA o 8.1 y cant yng Nghymru yn cyfateb i un o bob deuddeg oedolyn rhwng 18-64 oed neu dros 180,000 o unigolion, 60 y cant ohonynt yng nghyfnodau cynnar iawn dechrau busnes (egin entrepreneuriaid 4.9 y cant) a'r gweddill yn rhai a oedd â busnes newydd a oedd rhwng 3 a 42 mis oed (3.2 y cant).





**Ffigwr 1: Cyfanswm gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar (TEA) yng Ngwledydd Cartref y DU** (Ffynhonnell: GEM APS)

Gan edrych ar y cyfnod rhwng 2002-2011 gwelwn fod cyfradd gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar yng Nghymru, fel yn y DU, wedi codi drwy'r dirwasgiad (Ffigwr 2a). Mae lefel gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar yng Nghymru wedi dilyn tueddiad y DU yn agos iawn yn y blynyddoedd diwethaf.





**Ffigwr 2a: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yng Nghymru a'r DU (2002-10).** (Ffynhonnell: GEM APS)

Dengys Ffigwr 2b fod lefel y gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar yn nwy ranbarth NUTS 2 yng Nghymru (Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) wedi codi yn unol â chyfartaledd Cymru a'r DU. Gall yr uchafbwynt ymddangosiadol mewn gweithgarwch entrepreneuraidd yn Nwyrain Cymru yn 2009 fod yn amryfusedd o ganlyniad i faint sampl bach; drwyddi draw, mae tueddiad sy'n codi ers 2008 yn fwy tebygol.




**Ffigwr 2b: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yn Nwyrain Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Cymru a'r DU (2002-11).** (Ffynh.: GEM APS)

Roedd cyfraddau TEA "gyrrwyd gan anghenraid" a "gyrrwyd gan gyfle" gryn dipyn yn uwch yng Nghymru yn 2011 nag yn 2010. Cododd TEA o anghenraid o 1.1 y cant i 1.6 y cant, tra bo TEA cyfle wedi codi o 4.1 y cant i 6.4 y cant. Roedd TEA a yrrwyd gan anghenraid fel cyfradd o'r TEA i gyd yn 20 y cant, yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol (Ffigwr 3) a thra'n debyg i'r gyfradd yn y gwledydd cartref eraill ac eithrio'r Alban. Roedd gan Gymru lefel dipyn uwch o entrepreneuriaeth anghenraid yn 2011 na'r Alban.





**Ffigwr 3: Entrepreneuriaeth Cyfle ac Anghenraid yng Ngwledydd Cartref y DU yn 2011.** (Ffynhonnell: GEM APS 2011)

# Pwy yw'r Entrepreneuriaid yng Nghymru?


**Rhyw:** Ym mhob un o'r gwledydd cartref a'r DU, mae cyfraddau TEA dynion gryn dipyn yn uwch na merched. Fodd bynnag, nid yw'r cyfraddau TEA ar sail rhyw yn gwahaniaethu'n fawr ar draws y gwledydd cartref, na rhwng gwlad gartref a chyfartaledd y DU.

Mae'r gymhareb merched i ddynion mewn gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar yn gwahaniaethu'n amlwg ar draws y pedair gwlad gartref. Aeth y gymhareb yng Nghymru o 60 y cant yn ôl i lefelau 2009 wedi gostyngiad yn 2010 i 45 y cant. Tra bo cymarebau blynyddol yn debygol o amrywio o flwyddyn i flwyddyn, mae'r cymarebau ar gyfartaledd yn y pen draw dros y cyfnod 2002 i 2011 yn awgrymu fod gan Gymru gymhareb debyg, ar 51 y cant, i Loegr (47 y cant) a'r Alban (49 y cant) ond uwch na Gogledd Iwerddon (36 y cant).





**Ffigwr 4: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yng Ngwledydd Cartref y DU yn 2011.** (Ffynhonnell: GEM APS 2011)

Cododd y gyfradd TEA fenywaidd yng Nghymru i'r uchaf erioed, sef 6.1 y cant yn 2011. Gwelwn yn Ffigwr 5 fod cyfraddau TEA benywaidd yng Nghymru yn cyd-fynd yn gyffredinol â thueddiad y DU. O flwyddyn i flwyddyn, maent yn fwy anwadal oherwydd maint sampl cymharol fach. Mae'n bosibl mai hwn yw'r rheswm am y gostyngiad ymddangosiadol (ddim yn ystadegol arwyddocaol) yn y cyfraddau rhwng 2009 a 2010: mae'r tueddiad yn y tymor canolig am i fyny.





**Ffigwr 5: Cyfanswm Gweithgarwch Benywaidd Cyfnod Cynnar yng Nghymru a'r DU, 2002-2011.** (Ffynhonnell: GEM APS)


**Oed:** Fel y dengys Ffigwr 6, unigolion rhwng 25-34 oed sy'n dangos y gyfradd uchaf o weithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar yn y DU ac mae hyn yn wir am Gymru hefyd. Fodd bynnag, ymddengys fod gan y grŵp oed 18-24 gyfradd TEA gymharol uchel mewn cymhariaeth â'r gwledydd cartref eraill. Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn ystadegol arwyddocaol, ond cymharol ychydig o unigolion sydd yn y grŵp oed hwn. Ceir dadansoddiad mwy ystyrlon wrth gymharu sut mae cyfraddau TEA wedi newid yn y grŵp oed 18 i 29 (lle'r ymddengys fod toriad naturiol yn nata gweithgarwch GEM y DU) a'u cymharu â'r grŵp oed 30 i 64. Dengys Ffigyrau 7 ac 8 fod y gyfradd TEA ymhlith y rhai 18 i 29 oed yng Nghymru wedi treblu bron o 3.4 y cant yn 2002 i 9.7 y cant yn 2011, o'i gymharu â chynnydd ysgafnach yn y gyfradd TEA ymhlith rhai 30 i 64 oed o 4.4 y cant i 7.7 y cant. Mae'r cynnydd hwn mewn cyfraddau TEA ymhlith y rhai 18-29 oed yng Nghymru yn fwy na'r gwledydd cartref eraill, ac yn fwy na dwbl y cynnydd yn y gyfradd 20-64.




**Ffigwr 6: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yng Ngwledydd Cartref y DU, 2011.** (Ffynhonnell: GEM APS, 2011)





**Ffigwr 7: Tueddiad yng Nghyfanswm y Gweithgarwch Entrepreneuaidd cyfnod cynnar yng Ngwledydd Cartref y DU ymhlith rhai 18 i 29 oed, 2002 i 2011 (Ffynhonnell: GEM APS, 2002 i 2011)**




**Ffigwr 8: Y Tueddiad mewn Gweithgarwch Entrepreneuraidd cyfnod cynnar yng Ngwledydd Cartref y DU i'r rhai 30 i 64 oed, 2002 i 2011 (Ffynhonnell: GEM APS, 2002 to 2011)**

**Addysg:** Lefel y gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar i raddedigion yn y DU ar gyfartaledd yn 2011 oedd 9.4 y cant (Ffigwr 9), gryn dipyn yn uwch na lefel y rhai heb radd (6.5 y cant). Y ffigwr cymharol i raddedigion sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd oedd 8.5 y cant ac nid yw hwn yn ystadegol wahanol i lefel y DU neu'r gyfradd TEA i'r rhai heb radd yng Nghymru (7.9 y cant). Mae cyfraddau TEA graddedigion yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn ymddangos yn nes at gyfraddau TEA heb radd nag yn Lloegr – roedd y gwahaniaeth rhwng cyfraddau TEA graddedigion yn Lloegr a'r rhai heb radd yn agos at fod yn arwyddocaol.



**Ffigwr 9: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yng Ngwledydd Cartref y DU fesul Statws Graddedig, 2010.** (Ffynhonnell: GEM APS, 2011)


# Agweddau a Bwriadau Entrepreneuraidd

Mae GEM wedi datblygu nifer o ddatganiadau agweddol sy’n cael eu defnyddio yn lle potensial entrepreneuraidd mewn gwlad/rhanbarth. Maent yn cynnwys adnabod rhywun sydd wedi dechrau busnes yn y 2 flynedd ddiwethaf, y canfyddiad am gyfleoedd da i ddechrau busnes, hunangred fod gan rywun y sgiliau perthnasol i ddechrau busnes a pha mor amlwg yw ofn methu fel ffactor sy’n atal rhag sefydlu busnes.

Mae’n well trin data agweddol GEM ar lefel grŵp yn hytrach nag unigolyn, oherwydd gall unigolion sydd yn entrepreneuriaid deimlo fod gorfodaeth arnynt i roi atebion cadarnhaol yn yr Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth. Yma, fel yn y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym yn adrodd ar ddata agweddol am y gyfran honno o’r boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid yn barod.


Yng Nghymru, dywed un o bob pedwar (25.3 y cant) o unigolion eu bod yn adnabod entrepreneur o’i gymharu â 28.2 y cant yn y DU drwyddi draw (Ffigwr 10), yr un peth â

2010. Yng Nghymru cred dwy ran o bump (38.3 y cant) o'r rhai nad ydynt yn entrepreneuriaid eu bod yn meddu ar y sgiliau i sefydlu busnes, eto'n debyg i gyfartaledd y DU, sef 36.7 y cant.





**Ffigwr 10: Agweddau a Chanfyddiadau Entrepeneuraidd yng Nghymru a'r DU (2011).**
(Ffynhonnell: GEM APS, 2011)

Cododd cyfran y boblogaeth a ddywedodd y byddai ofn methu yn eu hatal rhag dechrau busnes yn 2011 o 41.4 y cant i 48.9 y cant, fel ag y gwnaeth yn y DU, o 36.0 y cant i 41.4 y cant, er nad yw'r un o'r codiadau hyn yn ystadegol arwyddocaol. Dengys Ffigwr 11 fod ofn methu wedi codi'n fwy serth yng Nghymru nag yn y gwledydd cartref eraill ers dechrau'r dirwasgiad yn 2007.





**Ffigwr 11: Ofn Methu ymhlith y rhai sy'n gweld Cyfleoedd yng Ngwledydd Cartref y DU, 2002-11.** (Ffynhonnell: GEM APS)

Yn arolwg 2011, dim ond 17.7 y cant o'r boblogaeth oedran gweithio heb fod yn entrepreneuriaid yng Nghymru oedd yn cytuno fod yna gyfleoedd da i ddechrau busnes yn eu hardal leol yn y chwe mis nesaf, o'i gymharu â 27.9 y cant o boblogaeth oedran gweithio heb fod yn entrepreneuriaid y DU. Dyma'r gyfradd isaf o ran canfyddiad am gyfleoedd dechrau busnes yng Nghymru ers 2002, ac mae'n ostyngiad ystadegol arwyddocaol ers 2010. Ni welwyd gostyngiad arwyddocaol mewn cyfraddau canfyddiad am gyfleoedd yn y gwledydd cartref eraill. Y flwyddyn ddiwethaf i ganfyddiad am gyfle ostwng yn gynt yng Nghymru nag yn y DU drwyddi draw oedd yn 2008, blwyddyn gyntaf y dirwasgiad.




**Ffigwr 12: Y Canfyddiad am Gyfleoedd Dechrau Busnes yng Nghymru a'r DU, 2002-11.** (Ffynhonnell: GEM APS)


Gan edrych tua'r dyfodol, cododd cyfran yr oedolion oedran gweithio heb fod yn entrepreneuriaid yng Nghymru sy'n disgwyl dechrau busnes o fewn y tair blynedd nesaf yn sylweddol o 5.2 y cant yn 2010 i 7.6 y cant yn 2011 (Ffigwr 13). Roedd hyn yn adlewyrchu tueddiad y DU a welodd gynnydd o 5.3 y cant i 8.0 y cant. Roedd y ddau gynnydd hyn yn 2011 yn arwyddocaol, ac maent yn gwrthdroi'r cwymp cyson mewn bwriadau dechrau busnes yn y dyfodol yng Nghymru ers 2005 - cyn dechrau'r dirwasgiad economaidd diweddar. Mae hyn yn mynd yn erbyn y tueddiad yn y canfyddiad am gyfleoedd, sy'n awgrymu ei fod yn fwy o adlewyrchiad o'r farchnad lafur yn tynhau a'r cynnydd mewn entrepreneuriaeth o anghenraid.




**Ffigwr 13: Disgwyliadau Dechrau Busnes yn y Dyfodol (o fewn 3 blynedd) yng Nghymru a'r DU, 2002-11.** (Ffynhonnell: GEM APS)

Mae dynion yn fwy tebygol na merched i adrodd eu bod yn bwriadu dechrau busnes yn y tair blynedd nesaf yng Nghymru (Ffigwr 14). Yn 2011, roedd 5.5 y cant o ferched yng Nghymru yn disgwyl dechrau busnes yn y 3 blynedd nesaf o'i gymharu â 10.0 y cant o ddynion. Roedd y gymhareb o fwriadau dechrau busnes rhwng merched a dynion yn 55 y cant, i fyny o 43 y cant yn 2010 ac yn agos at yr hyn a welwyd yn y gyfradd TEA yn 2011 (51 y cant).

Cododd bwriadau dechrau busnes yn sylweddol yn yr Alban yn 2011 ymhlith dynion a merched, ond nid oedd y codiadau yn y gwledydd cartref eraill i ddynion a merched yn ystadegol arwyddocaol. Mae'r cynnydd ymhlith merched yn yr Alban yn arbennig o nodedig ac anarferol; ers 2002 ni fu erioed yn uwch na 3.7%.



**Ffigwr 14: Disgwyliadau Dechrau Busnes yn y Dyfodol (o fewn 3 blynedd) yng Ngwledydd Cartref y DU fesul Rhyw, 2011.** (Ffynhonnell: GEM APS, 2011)

## Hyfforddiant, Ymwybyddiaeth a Gweithgarwch Entrepreneuraidd

Yn arolwg GEM UK 2008[3], roedd bron i dri allan o bump (58 y cant) o'r rhai 18 i 29 oed yng Nghymru'n cytuno eu bod wedi cael hyfforddiant mewn dechrau busnes a ddarparwyd gan goleg neu brifysgol nad oedd yn rhan o'u haddysg ffurfiol, o'i gymharu â dim ond 35 y cant yn yr Alban, 39 y cant yn Lloegr a 29 y cant yng Ngogledd Iwerddon. Nid oedd gwahaniaeth sylweddol yn y gyfran a oedd wedi cael hyfforddiant mewn dechrau busnes fel rhan o addysg ôl-ysgol ffurfiol ar draws y gwledydd cartref.

Yn 2010 cynhwyswyd cwestiwn mwy manwl ynghylch a oedd pobl 18-30 oed wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau yn yr ysgol, coleg neu'r brifysgol a wnaeth iddyn nhw ystyried dechrau busnes neu fod yn feistr arnyn nhw'u hunain. Dywedodd bron i hanner (46.7

[3] Hon oedd y flwyddyn olaf i'r arolwg gynnwys set lawn o gwestiynau am addysg a hyfforddiant menter.


y cant) eu bod wedi cael, a disgynnodd y nifer hwn i 39.7 y cant yn 2011. Er y gall y gwahaniaeth hwn ymddangos yn serth, nid yw'n ystadegol arwyddocaol oherwydd maint bychan y sampl o rai 18 i 30 oed. Ar 50.8 y cant, roedd yr amcangyfrif i Ogledd Iwerddon gryn dipyn yn uwch nag i Gymru neu Loegr (41.6 y cant) ond yr un peth â'r Alban (50.0 y cant). Gofynnwyd cwestiwn ychydig yn wahanol hefyd: "O ganlyniad i rywbeth a wnaethoch chi yn yr ysgol, y coleg neu'r brifysgol, a fyddech chi'n ystyried dechrau'ch busnes eich hun?" Roedd yr atebion yn debyg iawn, gyda 42.3 y cant yn ateb y byddent yn 2011, o'i gymharu â 48.3 y cant a atebodd y byddent yn 2010. Atebodd cyfradd debyg y byddent yn Lloegr (44.6 y cant) ond atebodd gryn dipyn yn fwy o bobl yn yr Alban (51.5 y cant) a Gogledd Iwerddon (51.6 y cant) yn gadarnhaol nag yng Nghymru. Yn 2011, cyfraddau tebyg iawn o bobl yn y gwledydd cartref oedd wedi clywed am yr Wythnos Fenter neu Wythnos Entrepreneuriaeth y Byd: 23.6 y cant yng Nghymru, 22.2 y cant yn Lloegr a'r Alban, a 21.9 y cant yng Ngogledd Iwerddon.

# Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyflogeion

Yn 2011, mesurodd y GEM weithgarwch economaidd ymhlith cyflogeion (EEA) am y tro cyntaf. Diffiniad hwn oedd cyfran y gweithwyr rhwng 18 a 64 oed sy'n chwarae rhan flaenllaw mewn creu a datblygu gweithgareddau busnes newydd i'r cwmni y maen nhw'n gweithio iddo, yn benodol y rheiny sydd â rhan mewn datblygu neu lansio nwyddau neu wasanaethau newydd neu sefydlu uned fusnes newydd, sefydliad neu is-gwmni newydd. Er bod GEM wedi datblygu ystod o fesurau ar gyfer y gweithgaredd hwn, rydym yn canolbwyntio ar y mesur sy'n cyffelybu fwyaf â gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar (TEA): Gweithgarwch Entreprneuraidd Cyflogeion yn y Sector Preifat (PEEA), neu gyfran y cyflogeion mewn cyrff preifat gwneud elw sydd ar hyn o bryd wrthi'n arwain ar weithgareddau busnes newydd i'w cyflogwr. Mae'r GEM yn gwahaniaethu rhwng dau gyfnod gweithgarwch entrepreneuraidd cyflogeion: datblygu syniadau ar gyfer gweithgaredd newydd a pharatoi a gweithredu gweithgaredd newydd.

Amcangyfrifon y gyfradd PEEA yn 2011 oedd: DU 2.3 y cant, Lloegr 2.4 y cant, Cymru 1.5 y cant, yr Alban 1.8 y cant a Gogledd Iwerddon 1.7 y cant. Mae Ffigwr 15 yn cymharu cyfraddau TEA a PEEA yn y pedair gwlad gartref a'r DU yn 2011. Sylwer fod enwaduron y ddau fesur hyn yn wahanol. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyfraddau PEEA y

gwledydd cartref.




**Ffigwr 15: Cyfanswm Gweithgarwch Entrpeneuraidd cyfnod cynnar a Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyflogeion y Sector Preifat yng Ngwledydd Cartref y DU, 2011.** (Ffynhonnell: GEM APS, 2011)

# Sylwadau Cloi

O safbwynt entrepreneuriaeth yng Nghymru, gall 2011 ymddangos yn baradocs: roedd gweithgarwch a bwriad entrepreneuraidd yn codi, eto roedd agweddau'n mynd yn fwy negyddol ymhlith y boblogaeth heb fod yn entrepreneuraidd weithgar. Rhaid gosod hyn yng nghyd-destun y cylch economaidd. Tua diwedd cyfnod dirwasgiad hir, byddem yn disgwyl fod rhai unigolion entrepreneuraidd yn cadw'u llygad ar agor am gyfleoedd newydd ar gyfer yr adeg pan fydd yr economi'n dod allan o ddirwasgiad, tra bod eraill yn poeni am eu swyddi ac yn meddwl efallai y bydd rhaid iddynt ddechrau busnes o anghenraid, neu yn wir maent yn ceisio dechrau busnes cyn colli eu swydd. Mae gweddill y boblogaeth yn gweld y dirwasgiad yn para fel bygythiad yn hytrach na chyfle.

Yn 2011, roedd 74 y cant o entrepreneuriaid TEA yng Nghymru yn entrepreneuriaid am y tro cyntaf, tra bo 85 y cant o unigolion nad ydynt yn entrepreneuraidd weithredol a oedd yn disgwyl dechrau busnes yn y tair blynedd nesaf yn entrepreneuriaid am y tro cyntaf. O ystyried y cynnydd mewn bwriadau a gweithgarwch, yn arbennig ymhlith oedolion iau, a'r

amodau economaidd caled, mae bodolaeth hyfforddiant a chyfeirio at adnoddau i entrepreneuriaid tro cyntaf yn hynod o bwysig ar yr adeg hon.

## Ymwadiad

Seiliwyd yr adroddiad hwn ar ddata a gasglwyd gan gonsortiwm GEM a thîm GEM UK; cyfrifoldeb llwyr yr awduron yw'r cyfrifoldeb dros ddadansoddi a dehongli'r data.

**Am ragor o wybodaeth ar brosiect GEM UK, cysylltwch â:**

Professor Mark Hart
Economics & Strategy Group
Aston Business School, Aston University
Aston Triangle, Birmingham, B4 7ET
Ebost: mark.hart@aston.ac.uk

Aston Business School

Dr Jonathan Levie
Hunter Centre for Entrepreneurship,
University of Strathclyde,
Livingstone Tower, 26 Richmond Street,
Glasgow, G1 1XH
Ebost: j.levie@strath.ac.uk

University of Strathclyde
Business School